

Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau oedolion

Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yw corff gwarchod annibynnol gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, ac rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar gynllunio, datblygu a darparu gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Mae'r CICau'n ceisio gweithio gyda'r GIG, a'r cyrff arolygu a rheoleiddio, i ddarparu'r cyswllt hanfodol hynny rhwng y rheiny sy'n cynllunio a darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rheiny sy'n ei arolygu a'i reoleiddio, a'r rheiny sy'n ei ddefnyddio.

Mae'r CICau'n cynnal dialog parhaus gyda'r cyhoedd, trwy amrywiaeth eang o rwydweithiau cymunedol, cyswllt uniongyrchol â phobl ifanc, cleifion, teuluoedd a gofalwyr, trwy ymholiadau, ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion, gweithgareddau ymweld, a thrwy arolygon y Claf a'r Cyhoedd. Mae pob un o'r 7 CIC yng Nghymru'n cynrychioli "llais y claf" yn eu hardaloedd daearyddol priodol.

Mae'r CICau'n monitro, fel mater o drefn, perfformiad gwasanaethau'r GIG yn eu hardal, yn ogystal ag ymateb i ddatblygiadau a newidiadau i wasanaethau.

Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) ledled Cymru yn falch

eu bod wedi derbyn y ddogfen ymgynghori 'Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau oedolion', a'r cyfle i rannu eu sylwadau.

Mae'r CICau wedi ymgymryd â nifer o ddarnau o waith yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion.

Enghraifft yw bod y Bwrdd CICau, ym mis Tachwedd 2017, wedi darparu papur sefyllfa ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (GIMPO), mewn ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i **Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**. Roedd un o'r sylwadau yn y papur hwnnw yn nodi:

"Mae trosglwyddo i wasanaethau oedolion yn parhau i fod yn broblem sylweddol, ac rydym yn parhau i glywed gan bobl ifanc nad ydynt yn teimlo bod eu trosglwyddo yn cael ei gefnogi'n briodol."

Yn 2018, cynhaliodd CIC Aneurin Bevan adolygiad o ddata ar ei wasanaeth eiriolaeth ac ymholiadau. Roedd hyn yn ceisio penderfynu beth oedd y problemau mwyaf gyda GIMPO dros y ddwy flynedd flaenorol. Datgelodd yr arolwg bod y rhain yn cynnwys:

- Cyfathrebu
- Cefnogaeth wrth aros.

Mae gwaith y CICau gyda phobl ifanc yn nodi bod pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, yn aml, yn gofyn am drosglwyddo gofal sylweddol o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod i

wasanaethau oedolion. Mae'r deunydd darllen yn nodi bod y glasoed yn gyfnod risg ar gyfer ymddangosiad anhwylderau meddyliol difrifol. Hyd yma, mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, yn defnyddio terfynau oedran anhyblyg i amlinellu ffiniau gwasanaethau, gan greu diffyg parhad wrth ddarparu gofal. Disgrifiwyd bod gwasanaethau iechyd meddwl y glasoed yn anghyson. Mae sawl astudiaeth ddiweddar wedi cadarnhau bod problemau'n codi wrth bontio mewn lleoliadau amrywiol. Ym maes iechyd corfforol, mae modelau ymarfer yn amlygu i wella'r broses o bontio a'r canlyniadau, ond ychydig iawn o fodelau cymharol a gafwyd ar gyfer gofal iechyd meddwl.

Mae agwedd bwysig arall ar bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn ymdrin â materion yn ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd. Yr unig ganolfan sy'n cynnig triniaeth hunaniaeth o ran rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr - sydd wedi gweld cynnydd sydyn yn y blynyddoedd diwethaf, yw'r Tavistock Clinic yn Ymddiriedolaeth Tavistock a Portman, Llundain. Cafodd tua 2,000 o blant a phobl ifanc eu hatgyfeirio trwy'r GIG yn 2016/17 - cynnydd o 42% ar 2015/16. Cafwyd cynnydd o 79% yn yr atgyfeiriadau o Gymru.

Ers Ebrill 2019, mae Gwasanaeth Hunaniaeth o Ran Rhywedd i Oedolion wedi cael ei sefydlu yng Nghymru, wedi'i gomisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC). Cafodd Gwasanaeth Rhywedd Cymru, a ddatblygwyd o'r newydd ac a fydd yn cynnwys timau Rhywedd Lleol ym mhob ardal Bwrdd Iechyd, ei lansio yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym mis Medi 2019. Bydd y gwasanaeth yn gweld cleifion sy'n 17½ oed a hŷn. Ar hyn o

bryd, mae cleifion ar restr aros y clinig Hunaniaeth o ran Rhywedd yn Llundain yn aros 26 mis am apwyntiad. Gall cleifion yng Nghymru ddisgwyl aros 26 mis am apwyntiad yng Nghaerdydd hefyd. Y gobaith yw y bydd yr amser aros hwn yn gostwng.

Mae'r CICau'n cyfranogi yn y fenter hon, ac mae ganddynt gynrychiolydd ar Grŵp Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru, sy'n datblygu'r gwasanaeth.

Y gobaith yw y bydd cyflwyno egwyddorion y broses bontio, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, yn sail i ddarparu gofal unigol i gynllunio a chyflawni'r broses o bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Ar y cyfan, mae'r CICau'n teimlo bod y canllawiau'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau nodweddiadol y mae plant a phobl ifanc wedi'u profi wrth bontio i wasanaethau oedolion yn y gorffennol. Felly, mae'n hynod werthfawr am y rheswm hwnnw. Mae ffurflen ymateb i ymgynghoriad CIC wedi'i hatodi isod.

Ffurflen
Ymateb i'r
Ymgynghoriad

Eich enw: **Desmond Kitto**

Sefydliad (os yn berthnasol): **Bwrdd
Cynghorau Iechyd Cymuned yng
Nghymru**

e-bost / rhif ffôn:

des.kitto@wales.nhs.uk

Eich cyfeiriad: **Bwrdd Cynghorau
Iechyd Cymuned, 33-35 Heol y
Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HB**

Cwestiynau'r ymgynghoriad

<p>C1.</p>	<p>A yw'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth glir am reoli prosesau Pontio a Throsglwyddo yn y Bwrdd Iechyd?</p> <p>Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) wedi bod yn craffu ar wasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion, yn enwedig y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (GIMPO) arbenigol, ers blynyddoedd lawer. Mae'r brwydrau sylweddol sy'n gyffredin ledled Cymru wedi'u nodi fel cyfathrebu, amserau aros hir, anawsterau wrth gyrchu'r gwasanaeth a'r broses o bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Felly, mae'r CICau'n croesawu'r ymgynghoriad hwn, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'w gynnwys.</p> <p>Dosbarthwyd y dogfennau ymgynghori i'r 7 CIC yng Nghymru, a'r consensws oedd eu bod yn glir a chryno. Nododd un sylw a dderbyniwyd, 'Rydw i wedi darllen y ddogfen hon, ac yn sicr mae ganddi elfennau o eglurder, sy'n welliant ar yr hyn a oedd ar gael.'</p> <p>Felly, ar y cyfan, mae'n ymddangos bod y canllawiau'n glir ac yn gynhwysfawr, gan gynnwys pob elfen ar y broses bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Roedd yn hawdd ei deall ac yn dilyn o safbwynt oedolion. Nodwyd hefyd bod fersiwn yr ymgynghoriad i</p>
-------------------	---

Blant a Phobl Ifanc wedi'i pharatoi'n dda a'i bod yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Mae cydraddoldeb, grymuso, hawliau dynol a chyfranogi yn werthoedd sydd wrth wraidd y sefydliad CIC yng Nghymru. Rydym yn croesawu hefyd yr adran ar atebolrwydd, gyda'i phwyslais ar bwysigrwydd casglu data ac atborth defnyddwyr gwasanaethau ar drefniadau pontio a throsglwyddo.

Gall y CICau hefyd gasglu atborth, ond mae yna rwymedigaeth amlwg i Fyrddau Iechyd ymgymryd â hyn, ac i **"...sicrhau bod atborth gan y person ifanc yn cael ei gasglu, fel bod llais y person ifanc yn cael ei glywed a'i fod wrth wraidd gofal."**

Mae'n dda hefyd ei fod yn sôn am gwynion, ac yn nodi **"Dylai Byrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd sicrhau bod yna drefniadau digonol ar gyfer ymateb i unrhyw gwynion a wneir gan bobl ifanc am wasanaethau pontio a throsglwyddo."**

C2.

Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion sy'n sylfaen i ddarparu gofal i'r unigolyn er mwyn cynllunio a chyflawni'r broses o symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion?

Mae'r CICau'n cytuno â'r egwyddorion sy'n sylfaen i ddarparu gofal i'r unigolyn.

Mae cynnwys cymorth eiriolaeth a Gweithio i Wella, i godi pryder, yn ogystal â'r gofyniad i **"Fyrddau Iechyd (i) sicrhau bod llais y person ifanc yn cael ei glywed a'i fod wrth wraidd gofal"** yn welliant cadarnhaol.

Yn yr un modd, rydym yn croesawu cynnwys Datrys Anghydfodau a'r gofyniad i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i **"gael system sylwadau a chwynion ymatebol, i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn amser real, gan gynnwys"**

pryderon ynghylch amserau aros hir neu oedi clinigol.”

Mae gwasanaethau eirioli'r CIC, yn aml, yn cynorthwyo pobl sy'n cwyno am oedi yn eu triniaeth. Cynhaliwyd adolygiad o'r data yn 2018, lle llwyddodd y CIC i bennu'r problemau allweddol gyda GIMPO dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal ag amserau aros, y themâu allweddol oedd:

- Derbyn atgyfeiriadau
- Cyfathrebu
- Cymorth wrth aros

Yn anffodus, gwelir patrymau yn aml yn y cwynion sy'n cael eu rheoli gan eiriolwyr. Er gwaethaf hyn, mae pob ymateb i gŵyn yn sicrhau'r achwynwyr bod gwersi wedi'u dysgu, pan fo pethau'n mynd o chwith. Felly, croesewir y gofyniad i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd fonitro eu data cwynion, a defnyddio atborth i wella gwasanaethau. Yn y gorffennol, adroddwyd ar atborth a dderbyniwyd gan blant a phobl ifanc, ac fe fydd y CICau'n ceisio gweithio gyda'u Byrddau Iechyd, ar ôl ei weithredu, i roi atborth ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud wrthym am sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio.

C3. A yw'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth glir am daith y person ifanc trwy'r broses Bontio a Throsglwyddo o'r dechrau i'r diwedd?

Ar y cyfan, mae'r CICau'n cytuno bod y canllawiau'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol glir yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae yna botensial ar gyfer dryswch ynghylch gwahanol grwpiau oedran; nid yw'r amserlenni a'r terfynau amser o ran y CPT h ac Adolygiadau, yn ogystal â hawliau – yn hytrach na'r hyn a nodir fel 'dylid ei wneud' – yn glir.

Holodd un o'r CICau pa ddull cywiro oedd yna ar gyfer gorfodi, neu gyfle i sicrhau y byddai Byrddau Iechyd Prifysgol cyndyn yn cydymffurfio.

C4.	<p>A yw'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth glir am y broses ar gyfer person ifanc sy'n dod yn rhan o'r system gofal iechyd am y tro cyntaf yn 16 neu'n 17 oed?</p> <p>Mae'r CICau'n teimlo bod y canllawiau'n glir ynghylch y broses ar gyfer pobl ifanc 16 i 17 oed.</p> <p>Os nad yw'n cynnwys gwybodaeth glir, nodwch sut y gellid gwella hyn.</p> <p>Mae sylwadau ychwanegol wedi'u nodi yn ymateb CIC i C.6 isod.</p>
------------	---

C5.	<p>Hoffem dderbyn eich safbwyntiau ar effeithiau'r Canllawiau drafft ar Bontio a Throsglwyddo ar yr Iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?</p> <p>Byddai'r gofyniad i beidio â thrin cleifion Cymreig yn llai ffafriol na'u cymheiriaid Seisnig yn gofyn am i Fyrddau Iechyd sicrhau bod ganddynt siaradwyr neu gyfieithwyr Cymraeg ar gyfer gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Mae'r sefydliad CIC yn clywed yn aml gan gleifion nad ydynt yn medru'r Saesneg am oedi wrth drefnu cyfieithu. Rydym yn ymwybodol hefyd nad yw pob un o'r Byrddau Iechyd yn cwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'n bwysig sicrhau nad yw pobl ifanc yn profi oedi yn eu triniaeth, oherwydd diffyg trefniadau gwasanaeth cyfieithu cadarn, gan y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y broses o bontio a'u gofal parhaus.</p> <p>Yn flaenorol, mae rhai CICau wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn helaeth, mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl. Dywedodd rhai rhieni wrth y CICau</p>
------------	--

iddynt deimlo bod y broses o bontio'n rhy hir, gan fod angen asesiad newydd sy'n cael effaith negyddol ar barhad gofal eu plentyn.

Nid oedd rhai rhieni'n cytuno gallai eu plentyn fynd i apwyntiad hebddynt, pe byddent yn dymuno. Roedd y rhieni hynny'n teimlo bod peidio â chael mynd gyda'u plentyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn rheoli eu gofal parhaus gartref. Felly, mae'n bwysig asesu gallu plentyn yn fanwl gywir, gan gynnwys ei allu i reoli ei driniaeth ei hun gartref.

C6.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y blwch hwn i'w cofnodi

1. Mae paragraff 2.3 yn nodi, **“Os yw'r trefniadau gofal a thriniaeth yn arwain at amddifadu person ifanc o'i ryddid, mae angen dilyn y Safonau Amddifadu o Ryddid neu'r Safonau Gwarchod Rhyddid (DOLS/LPS) perthnasol, neu weithdrefnau eraill, er mwyn diogelu llesiant y person ifanc yn gyfreithiol, a rhoi sylw dyledus i'w hawliau dynol.”** Mae'r CICau'n teimlo ei bod hi'n bwysig nodi'r sefyllfaoedd cyfyngedig lle byddai DoLS yn gymwys i bobl ifanc dan 18 oed.
2. Mae paragraff 4.13 yn nodi **“Os ystyrir bod angen, dylid nodi gweithiwr penodol, a fydd yn gweithio gyda'r person ifanc a'i deulu, i helpu i gydgyssylltu gwasanaethau.”** Y cwestiwn yw; ystyrir gan bwy? A all person ifanc fynnu ar y ddarpariaeth hon? Efallai y bydd angen eglurhad pellach ar yr adran hon.
2. Teimlir bod cadw'r CPTth fel pasbort yn syniad gwych – fodd bynnag, fe fyddai'n elwa o gynnwys amserlenni / terfynau amser i'w gwblhau a'i adolygu (yn ychwanegol at adolygiad yn 16 oed). Gallai

penodi gweithiwr proffesiynol perthnasol, fel Cydlynnydd CPTH, elwa hefyd o nodi terfyn amser o ryw fath. Mae'r CPTH (Atodiad 3) – yn cynnwys mewnbwn person ifanc ar anghenion iechyd allweddol – efallai byddai hyn yn elwa o grynoded clinigol proffesiynol o anghenion iechyd / trefn triniaeth / meddyginiaeth / gwrtharwyddion ayb. Byddai hyn yn sicrhau bod ei swyddogaethau'n ymestyn i gyfathrebu â chlinigwyr ym mhob lleoliad.

4. Mae paragraff 5.2 yn nodi bod y gweithiwr penodol yn gyfrifol am gynnal cyfarfod adolygu ar gyfer 'CPTH person ifanc sy'n troi'n 16 oed' – ond, dim ond lle mae'n cael ei 'ystyried yn angenrheidiol' y bydd canllawiau ar waith. Mae hyn yn golygu bod bwloch posib o ran cyfrifoldeb i gynnal adolygiad.

Mae'r Canllawiau'n rhoi pwyslais ar ofynion adolygu pobl ifanc dan 16 oed, ond nid yw adolygiadau CPTH ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed wedi'u cynnwys. Mae'n bosib hefyd y gallai'r canllawiau elwa o eglurder pellach, o ran sut mae'n ymestyn i **'blant a phobl ifanc hyd at 25 oed.'**

Wedi dweud hynny, mae'r CICau'n teimlo bod y Canllawiau'n ceisio mynd i'r afael â'r materion nodweddiadol y mae plant a phobl ifanc wedi dod ar eu traws wrth bontio i wasanaethau oedolion yn y gorffennol. Felly, mae'n hynod werthfawr am y rheswm hwnnw.

Ym mis Ionawr 2017, fe wnaeth y Bwrdd CICau baratoi papur sefyllfa mewn ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Un o'r argymhellion oedd 'bod angen adrodd yn fwy clir a chyson ar berfformiad, er mwyn hwyluso craffu o'r fath yn well gan y Byrddau Iechyd eu hunain, a chan y rheiny sy'n defnyddio ac yn monitro'r GIG. Y Gobaith yw y bydd y broses arfaethedig i reoli'r pontio, o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau oedolion, yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma os gwelwch yn dda:

Manylion Cyswllt



Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng
Nghymru
33 / 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB



02920 235 558



@waleschc.org.uk



www.communityhealthcouncils.org.uk



@CHC_Wales